# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 16 a 23 Mawrth 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

6 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal â Llywodraeth San Steffan ynghylch adran 8 o'r gyfarwyddeb Ewropeaidd a hawliau pensiwn cyn weithwyr Allied Steel and Wire? (WAQ45969) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf wedi sicrhau bod adfer hawliau pensiwn llawn i weithwyr ASW yn flaenoriaeth ac yr wyf yn parhau i gydweithio'n agos ag Undeb y Gymuned ar ran ei aelodau. Bûm yn arwain dirprwyaeth i gyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 12 Ionawr i drafod ystod o faterion yn ymwneud â thrafferthion yr aelodau a ohiriwyd o'r cynllun pensiwn. O ran erthygl 8, mae gerbron y Llys ar hyn o bryd a byddai'n amhriodol i mi wneud sylwadau pellach ar y mater.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi llwyfannu'r sioe 'Jerry Springer' yng Nghymru? (WAQ46195)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi unrhyw gymorth tuag at lwyfannu *Jerry Springer—The Opera* yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £750,000 o gyllid refeniw bob blwyddyn tuag at gostau gweithredol Canolfan Mileniwm Cymru. Ni chyfyngir ar yr arian hwn. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymyrryd ym mhenderfyniadau artistig cyrff celfyddydol sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Michael German:** O ran cyllid yr UE a ddyrannwyd i ddarparu band eang mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd yn Nwyrain De Cymru, a wnaiff y Gweinidog:
a) ddatgan a yw'r contract wedi ei ddyfarnu a b) rhoi dadansoddiad, fesul ardal, o pryd fydd darpariaeth band eang yn debygol o gael ei derbyn? (WAQ46180)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Yr wyf yn falch o gadarnhau imi gyhoeddi ar 14 Mawrth fod contract wedi cael ei lofnodi gyda Grŵp BT i gyflwyno'r rhaglen cymorth band eang arloesol rhanbarthol yn raddol. Mae manylion y gwaith galluogi mewn cyfnewidfeydd wedi cael eu rhoi ar wefan 'Band Eang Cymru', www.cymru.gov.uk.

**Lisa Francis:** Faint o arian a roddwyd i brosiectau twristiaeth yng Nghymoedd y De ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y prosiectau unigol? (WAQ46182)

**Andrew Davies:** Mae'r arian a ddyfarnwyd i brosiectau twristiaeth yng Nghymoedd y De rhwng 2003 a nawr fel a ganlyn. Oni nodwyd yn wahanol, mae'r arian i gyd wedi cael ei sianelu drwy Fwrdd Croeso Cymru.

| **Prosiect** | **Grant (£)** |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | |
| Gwaith celf Stryd Beaufort, Brynmawr | 14,285 |
| Cyllid tuag at becyn adfywio dur Blaenau Gwent (Twristiaeth—prosiect pedair blynedd) | 1,150,000 |
| Cwt hawlio Pwll Elliott, Tredegar | 150,000 |

| **Prosiect** | **Grant (£)** |
|---|---|
| **Caerffili** | |
| Rhaglen fynediad cwm Aber, Caerffili | 28,056 |
| Y parciau gwledig i gyd, Caerffili | 5,600 |
| Clwb Gwledig a Golff Bryn Meadows, Caerffili | 590,000 |
| Cwrs beicio mynydd lawr rhiw Cwmcarn, Caerffili | 40,000 |
| Prosiect datblygu coedwig Cwmcarn (cyllid datblygu rhanbarthol Ewropeaidd—Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) | 332,000 |
| Prosiect datblygu coedwig Cwmcarn (cyllid adfywio lleol) | 468,000 |
| Traphont Hengoed | 60,000 |
| Maenor Llancaiach Fawr, Nelson | 100,000 |
| Gwarchodfeydd natur lleol, Caerffili | 10,600 |
| Parc gwledig llyn Pen y Fan, y Coed Duon | 8,800 |
| Parc carafannau a hamdden Penyfan, y Coed Duon | 81,865 |
| Cofeb Pwll Windsor, Caerffili | 5,000 |
| **Merthyr Tudful** | |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful | 14,063 |
| Clwb Golff Morlais Castle, Merthyr Tudful | 16,000 |
| Dathliadau Trevithick 2004, Merthyr Tudful | 182,091 |
| Cwt injan Ynysfach, Merthyr Tudful | 25,000 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | |
| Datblygiad twristiaeth parc coedwig Afan (ERDF—WEFO) | 70,500 |
| Canolfan llwybrau beicio mynydd Afan, Glyncorrwg (Hydref 2003) | 58,900 |
| Llwybrau Afan, Glyncorrwg (Ebrill 2003) | 90,000 |
| Cabanau pren Bryn Betws, Port Talbot | 25,000 |
| Gwesty'r Castell, Castell-nedd | 63,000 |
| Fferm Cilhendre Fawr, Pontardawe | 25,000 |
| Bythynnod Cwm Bach, Castell-nedd Port Talbot | 9,900 |
| Fferm Hawdref Ganol, Castell-nedd | 8,000 |
| Gwesty Jones & Jones, Castell-nedd | 8,395 |
| Lein Fach Margam, Port Talbot | 108,000 |
| Ailddatblygu parc a chastell Margam (ERDF—WEFO) | 1,113,000 |
| Lle Gwely a Brecwast Queens, Port Talbot | 12,500 |
| The Refreshment Rooms, Cymmer | 10,000 |
| **Rhondda Cynon Taf** | |
| Clwb Golff Aberdâr, Aberdâr | 36,000 |
| Fferm Blaen-Nant-y-Groes, Aberdâr | 20,000 |
| Gwesty Buckleys, Aberdâr | 31,250 |
| Llwybr beiciau Lady Windsor, Rhondda Cynon Taf | 68,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Muni, Pontypridd | 5,200 |
| Valleys Kids, Tonypandy | 59,000 |
| **Tor-faen** | |
| Tirwedd diwydiannol Blaenafon, llwybr craidd | 50,000 |
| Blaenavon Marketing (ERDF—WEFO) | 100,000 |
| Blaenavon Marketing (arian cyfatebol Ffordd i Ffyniant) | 125,000 |
| Canolfan Treftadaeth Byd Blaenafon, Blaenafon | 225,885 |
| Cynllun dehongli fferm, Cwmbrân | 10,297 |
| Llynnoedd Garn, Blaenafon | 5,732 |
| Rhwydwaith mannau gwybodaeth HERIAN, Tor-faen | 50,000 |
| Gwesty a chanolfan gynadledda Parkway, Cwmbrân | 100,000 |
| Llwybr cerdded a beicio Tor-faen | 20,000 |
| Fferm Tŷ Shon Jacob, y Transh | 3,775 |

| **Prosiect** | **Grant (£)** |
|---|---|
| **Blaenau'r Cymoedd** | |
| Prosiect rhwydweithio/marchnata enillwyr twristiaeth (rhaglen Blaenau'r Cymoedd) | 50,000 |
| **Cyfanswm yr Arian a Ddyfarnwyd** | 5,983,15450,000 |

**Lisa Francis:** Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyllido'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn uniongyrchol, ac ystyried eu bod yn gyfyngedig trwy warant? (WAQ46183)

**Andrew Davies:** Bydd pwerau cyllido'r bwrdd croeso yn trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill. Bydd y status quo felly o ran cyllido'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn parhau.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y prinder cyllid o gronfa gymdeithasol Ewrop ar hyn o bryd sy'n effeithio ar Gymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y De? (WAQ46185)

**Andrew Davies:** Cyfarfu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru â chynrychiolwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn hwyr ym mis Chwefror a chafodd drafodaeth bositif am faterion yn ymwneud â phrosiect 'adeiladu'r gymuned' sydd ar hyn o bryd i fod i orffen ym mis Awst 2006.

Mae'r prosiect 'dilyniant drwy bartneriaeth', sy'n cael ei reoli gan Brifysgol Cymru, Casnewydd, hefyd i fod i orffen ym mis Hydref 2006, ac mae WEFO mewn gohebiaeth â noddwr y prosiect.

Mae'r naill brosiect a'r llall yn cael ei ariannu o dan flaenoriaeth 4, mesur 3 o raglen Amcan 1. Cyhoeddwyd cylch ymgeisio am yr arian sy'n weddill o dan y mesur hwn ar 28 Chwefror a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar gynorthwyo prosiectau presennol sy'n ceisio cyllid ychwanegol o dan y mesur hwn. Byddwn yn annog noddwyr y prosiectau i fynd ar y trywydd hwn.

Deallaf y bydd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn dal i allu tynnu arian i lawr oddi wrth Dysgu ac Addysgu Cymru ac, ar ôl yr uno, oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn cynnal cyrsiau a thalu costau tiwtoriaid, defnyddiau, canolfannau a chostau gweithredol.

**Lisa Francis:** Pryd yn union cynhelir yr adolygiad o bartneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn 2006-07? (WAQ46194)

**Andrew Davies:** Penderfynir ar hyn fel rhan o broses cynllunio busnes arferol yr adran menter, arloesi a rhwydweithiau newydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Laura Anne Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i roi sylw i'r diffygion mewn cyllid sy'n effeithio ar Gymdeithas Addysg y Gweithwyr, De Cymru? (WAQ46186)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Bydd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn dal i allu tynnu arian i lawr oddi wrth ELWa ac, o 1 Ebrill, oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn cynnal cyrsiau a thalu costau tiwtoriaid, defnyddiau, canolfannau a chostau gweithredol eraill.

Deallaf fod swyddogion WEFO wedi cwrdd â chynrychiolwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn hwyr ym mis Chwefror ac wedi cael trafodaeth bositif am faterion yn ymwneud â phrosiect 'adeiladu'r gymuned' sydd ar hyn o bryd i fod i orffen ym mis Awst 2006. Mae'r prosiect 'dilyniant drwy

bartneriaeth', sy'n cael ei reoli gan Brifysgol Cymru, Casnewydd, i fod i orffen ym mis Hydref 2006, ac mae WEFO mewn gohebiaeth â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr am hyn.

Mae'r naill brosiect a'r llall yn cael ei ariannu o dan flaenoriaeth 4, mesur 3 o raglen Amcan 1. Cyhoeddwyd cylch ymgeisio am yr arian sy'n weddill o dan y mesur hwn ar 28 Chwefror ac mae hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gynorthwyo prosiectau presennol sy'n ceisio cyllid ychwanegol o dan y mesur hwn. Byddwn yn annog Cymdeithas Addysg y Gweithwyr i fynd ar y trywydd hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** Sawl hectar o dir y Comisiwn Coedwigaeth a gliriwyd o goed er mwyn hwyluso adeiladu fferm wynt Cefn Croes? (WAQ46198)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cafodd 266.8 hectar o dir a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth a oedd gynt a choed arnynt eu clirio o goed er mwyn gallu codi fferm wynt Cefn Croes. Yr oedd y rhan fwyaf o'r gwaith cwympo coed hwn yn angenrheidiol i helpu i gynhyrchu cymaint â phosibl o drydan, yn hytrach nag am resymau adeiladu pur.

**Nick Bourne:** A brynwyd unrhyw dir i gymryd lle'r tir coedwigaeth a gollwyd er mwyn adeiladu fferm wynt Cefn Croes ac, os felly, faint o goed a blannwyd? (WAQ46200)

**Carwyn Jones:** Nid oes unrhyw dir wedi cael ei brynu yn lle'r tir coedwigaeth y codwyd Cefn Croes arno. Fodd bynnag, sefydlwyd pwyllgor rheoli amgylcheddol gyda chylch gwaith a chyllideb ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar dir gerllaw Cefn Croes, gan fod manteision bioamrywiaeth sylweddol i'w cael o beth o'r datgoedwigo.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am statws tir y Comisiwn Coedwigaeth mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ46206)

**Carwyn Jones:** Mae'r tir a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn eiddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddwyd yr holl dir a arferai fod yn eiddo i'r Comisiynwyr Coedwigaeth i'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan adran 4(6) o Ddeddf Coedwigaeth 1945. Trosglwyddwyd tir coedwigaeth yng Nghymru a oedd yn eiddo i MAFF i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Laura Anne Jones:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amddiffyn buddiannau'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru? (WAQ46210)

**Carwyn Jones:** Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu fel yr adran goedwigaeth yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei ariannu ar gyfer ei weithgareddau yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn amddiffyn ac yn hyrwyddo buddiannau'r sector coedwigaeth drwy gyflenwi tua 70 y cant o'r coed a dyfir yng Nghymru o'r ystâd y mae'n ei rheoli ar ran y Cynulliad ac mae hefyd yn darparu cymorth grant i berchenogion coetiroedd preifat i sefydlu a rheoli eu coetiroedd.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio'n agos gyda'r sector prosesu coed ledled Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer eu gweithgareddau a gwybodaeth am argaeledd

coed i’r dyfodol a gallant ddefnyddio’r wybodaeth honno wrth lunio eu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru a’r awdurdod datblygu hefyd wedi cynorthwyo i sefydlu partneriaeth busnes coedwigaeth Cymru. Grŵp o dan arweiniad y diwydiant yw hwn ac mae’n ceisio datblygu’r diwydiant cynnyrch coedwigaeth gyda’r gorau yn y byd a nodwyd yn strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer coetiroedd, ‘Coetiroedd i Gymru’.

**Laura Anne Jones:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynorthwyo coedwigwyr yn Nwyrain De Cymru y bydd cau Melin Bapur Sudbrook, Sir Fynwy, yn effeithio arnynt? (WAQ46211)

**Carwyn Jones:** Drwy ei hadran goedwigaeth, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o’r sector coedwigaeth yng Nghymru i geisio marchnadoedd amgen i’r 14,000 tunnell fetrig yn fras o goed y flwyddyn yng Nghymru na fydd mwyach yn mynd i’r felin hon ar ôl iddi gau.

Mae llawer o’r coed eisoes yn cael ei arallgyfeirio i farchnadoedd eraill ac mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr i sicrhau bod cau St Regis yn cael cyn lleied â phosibl o effaith ar y sector coedwigaeth yng Nghymru.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi iawn i awdurdodau lleol sydd â threfi Prifysgol am golli incwm y dreth gyngor drwy eithrio myfyrwyr? (WAQ46184)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Cyfrifir dosbarthiad y grant cynnal refeniw gan ddefnyddio gwybodaeth am y sylfaen treth gyngor a ddarperir gan y cynghorau. Mae’n ofynnol i’r cynghorau gyfrifo eu sylfaen treth gyngor yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae’r data sylfaen drethi a ddarperir o dan y rheoliadau hyn yn cymryd disgowntiau ac eithriadau i’r dreth gyngor, yn cynnwys eithrio myfyrwyr, i ystyriaeth.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi’r holl ohebiaeth a anfonodd at awdurdodau lleol ynghylch darparu cronfeydd ymddiriedolaeth plant ar gyfer plant sy’n derbyn gofal er 20 Medi 2005? (WAQ46187)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi anfon unrhyw ohebiaeth at awdurdodau lleol ynghylch darparu cronfeydd ymddiriedolaeth plant ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â’r cyfrifoldeb portffolio am blant sy’n derbyn gofal.

Mae’r Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ag awdurdodau lleol yng Nghymru am drefniadau i sefydlu cynllun grant cronfeydd ymddiriedolaeth plant newydd o hydref 2006 i wneud cyfraniadau blynyddol i gyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant rhai categorïau o blant sy’n derbyn gofal. Mae’r ymgynghoriad yn nodi’r trefniadau ar gyfer y cynllun ac yn ceisio barn yn arbennig am y meini prawf cymhwyso o ran cyfraniadau o dan y grant cronfeydd ymddiriedolaeth plant/plant sy’n derbyn gofal.

Mae’r ymgynghoriad yn dilyn ymgynghoriad cynharach yr ymgymerwyd ag ef fis Awst diwethaf. Mae copïau o’r naill ymgynghoriad a’r llall a’r canllawiau ar gronfeydd ymddiriedolaeth plant a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gael ar wefan rhoi plant yn gyntaf y Cynulliad—www.plantyngyntaf.cymru.gov.uk.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** Dan ba amgylchiadau y gall awdurdod lleol yng Nghymru wrthod diystyried costau tai a’r dreth gyngor wrth gyfrifo taliadau am ofal cartref? (WAQ46169)

**Nick Bourne:** Pa arweiniad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei roi i awdurdodau lleol mewn perthynas â chostau tai a’r dreth gyngor wrth gyfrifo taliadau am ofal cartref? (WAQ46170)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu ‘Polisïau Codi Tal Tecach ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cartref a Gwasanaethau Di-breswyl Eraill’ yn dilyn cefnu ar ei ymrwymiad i roi gofal cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ46171)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae Adran 17(1) o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau cymdeithasol dibreswyl penodedig. Yn ôl Adran 17(3), wrth godi tâl, ni chaiff awdurdod fynnu bod person yn talu mwy nag y mae’n rhesymol o fewn rheswm iddo ef neu iddi hi ei dalu.

Un o effeithiau’r canllawiau, ‘Fairer Charging Policies for Home Care and Other Non-residential Social Services’, yw gwarantu bod lefel o incwm ar ôl i’r rhai sy’n cael eu hasesu er mwyn codi tâl arnynt. Yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol fod wedi rhoi elfennau statudol y canllawiau ar waith erbyn mis Ebrill 2004.

Mae’r cyngor o ran costau tai a’r dreth gyngor yn cael ei ddarparu fel ymarfer gorau a gall awdurdodau ei gymryd i ystyriaeth yn ôl eu disgresiwn o fewn gofynion llawn adran 17(3) o Ddeddf 1983.

Fel y dywedais yn fy natganiad i’r Cabinet ar 15 Chwefror 2006, byddwn yn parhau i adolygu’r trefniadau codi tâl am ofal cartref, ac i ddiwygio’r trefniadau lle bydd cyfle i wneud hynny a phan fyddwn yn gallu fforddio ei wneud.

**Nick Bourne:** Beth yw blaenoriaethau gwariant y Gweinidog ar gyfer yr arian a ddyrannwyd gynt i roi gofal cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ46172)

**Brian Gibbons:** Amlinellai fy natganiad i’r Cabinet ar 15 Chwefror 2006 becyn cyllido ar gyfer amryw o gynlluniau er mwyn lleihau effeithiau codi tâl ar bobl anabl a gwella swmp ac ansawdd y ddarpariaeth gofal cartref i’r rhai sy’n cael y gofal a gofalwyr. Bydd yr arian a oedd gynt wedi ei ddyrannu ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cartref am ddim yn cael ei ddefnyddio i weithredu’r newidiadau arfaethedig i’r canllawiau codi tâl statudol, yn cynnwys y glustogfa godiadau, ac i ddarparu’r cymorth ychwanegol a addawyd i ofalwyr. Mae cymorth ar gyfer elfennau cyfalaf y pecyn yn ychwanegol at yr arian refeniw a glustnodwyd i weithredu’r polisi.

**Lisa Francis:** Faint y mae’r GIG wedi ei wario ar gyflogi staff asiantaeth ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ46174)

**Brian Gibbons:** Mae ymddiriedolaethau’r GIG yn rhoi manylion am gostau ‘asiantaeth’ mewn rhestrau a gyflwynir gyda’u cyfrifon blynyddol. Mae a wnelo’r rhestrau hyn â staff nad ydynt yn rhan o’r GIG, lle mae taliadau’n cael eu gwneud i asiantaethau allanol. Maent yn cwmpasu’r categorïau staff canlynol:

| |
|---|
| Meddygol |
| Deintyddol |
| Staff nyrsio, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd |
| Staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol |
| Gweinyddol a chlercol |

| |
|---|
| Cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth arall (yn cynnwys staff ategol) |
| Staff cynnal a chadw a gwaith |
| Staff ambiwlans |
| Gweithwyr eraill |

Mae'r costau llawn a gofnodwyd yn y rhestrau er 1999 fel a ganlyn:

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| 2004-05 | 52.8 |
| 2003-04 | 47.7 |
| 2002-03 | 38.1 |
| 2001-02 | 28.5 |
| 2000-01 | 18.1 |
| 1999-2000 | 12.8 |

**Lisa Francis:** Faint o bobl a gyflogwyd gan GIG Cymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ46175)

**Brian Gibbons:** Mae'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus ar wefan Ystadegau Cymru ar: http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1275

**Lisa Francis:** Faint o gleifion sydd wedi cael eu trin gan y GIG yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ46176)

**Brian Gibbons:** Gellir cael gwybodaeth gan StatsCymru ar http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx. Fel yr hysbysais chi yn yr ateb i WAQ45369, i'w ateb ar 18 Ionawr 2006, gweithgarwch mewn ysbytai o dan arweiniad ymgynghorydd yn unig sy'n cael ei gynnwys yn y data ar StatsCymru. Nid yw'n cynnwys achosion dydd ac nid yw'n cyfeirio at yr holl gleifion sy'n cael eu gweld ond mae'n cyfeirio at bob achos (e.e. gallai'r ffigurau gynnwys manylion yr un claf sy'n cael ei weld fwy nag unwaith).

**Lisa Francis:** Faint o arian a werir ar reolaeth y GIG a beth yw hyn fel canran o gyllideb y GIG? (WAQ46177)

**Brian Gibbons:** Nid oes un diffiniad o gostau rheoli sy'n cael eu casglu ar sail gyson ar draws holl gyrff y GIG ac, felly, nid yw'r wybodaeth ar gael yn y fformat gofynnol i allu ymateb i'r cwestiwn.

Mae cyfrifon cyhoeddedig ymddiriedolaethau'r GIG yn cynnwys datganiad am gostau rheoli. Y prawf rheoli yw:

Lle mae rheolwyr yn gyfrifol am adnoddau sylweddol, neu fod ganddynt gyfrifoldebau goruchwylio—yn cynnwys cynnal safonau proffesiynol—neu maent yn cyflawni swyddogaeth gymorth e.e. cynllunio neu bersonél, yn hytrach na swyddogaeth glinigol neu weithredol.

Mae'r costau hyn yn seiliedig ar ddiffiniad a nodwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (WHC (2000)113) ac maent yn cynnwys swyddi sy'n dod o fewn swyddogaethau corfforaethol a bwrdd yn ogystal â rhai staff clinigol, gweithredu a chymorth (h.y. lle mae'r cyflogau uwchlaw trothwy cyflog cyfredol o £28,362). Mae manylion y costau hyn ar gael yng nghyfrifon cyhoeddedig unigol ymddiriedolaethau GIG. Nid oes ystadegyn cyffelyb yn cael ei gyhoeddi yng nghyfrifon blynyddol y byrddau iechyd lleol.

**Lisa Francis:** Faint o weision sifil sy’n gweithio yn Adran Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ46178)

**Brian Gibbons:** Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

**Lisa Francis:** Faint o nyrsys practis sy’n gweithio mewn meddygfeydd teulu yng Nghymru? (WAQ46179)

**Brian Gibbons:** Yr oedd 1,301 o nyrsys practis (794.8 cyfwerth ag amser llawn) yn gweithio mewn meddygfeydd teulu yng Nghymru ar 30 Medi 2004.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi’r holl ohebiaeth a anfonodd at awdurdodau lleol ynghylch darparu cronfeydd ymddiriedolaeth plant ar gyfer plant sy’n derbyn gofal er 20 Medi 2005? (WAQ46188)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sawl awdurdod lleol sy’n darparu cronfeydd ymddiriedolaeth plant ar gyfer yr holl blant sy’n derbyn eu gofal? (WAQ46189)

**Leanne Wood:** Faint o blant sy’n derbyn gofal sydd wedi derbyn cronfa ymddiriedolaeth plant gan awdurdodau lleol er 20fed Medi 2005 a faint o blant sy’n derbyn gofal a dderbyniodd gronfeydd ymddiriedolaeth plant yn (a) 2004-05 a (b) 2005-06? (WAQ46190)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru canran y plant sy’n derbyn gofal sydd wedi derbyn cronfa ymddiriedolaeth plant gan ardal awdurdod lleol? (WAQ46191)

**Leanne Wood:** Faint o arian ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol er Medi 2005, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cronfeydd ymddiriedolaeth plant ar gyfer yr holl blant sy’n derbyn eu gofal? (WAQ46192)

**Brian Gibbons:** Mae’r Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ag awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch trefniadau i sefydlu cynllun grant cronfeydd ymddiriedolaeth plant (CYP) newydd o hydref 2006 i annog awdurdodau lleol i wneud cyfraniadau blynyddol i gyfrifon CYP rhai categorïau o blant y maent yn gofalu amdanynt. Mae’r ymgynghoriad yn nodi’r trefniadau ar gyfer y cynllun ac yn ceisio barn yn arbennig am y meini prawf cymhwyso o ran cyfraniadau o dan y grant CYP/ plant sy’n derbyn gofal.

Mae’r ymgynghoriad yn dilyn ymgynghoriad cynharach yr ymgymerwyd ag ef fis Awst diwethaf. Mae copïau o’r naill ymgynghoriad a’r llall a’r canllawiau ar CYP a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gael ar wefan Rhoi Plant yn Gyntaf y Cynulliad—www.plantyngyntaf.cymru.gov.uk

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy’n gyfrifol am gyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant. I’r rhan fwyaf o blant, bydd cyfrifon CYP wedi cael eu sefydlu gan eu rhieni. Dylai cyfrif CYP gydag isafswm o £500 ynddo gael ei sefydlu i bob plentyn sy’n derbyn gofal sydd â dyddiad geni ar ôl 1 Medi 2002 ac sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar 6 Ebrill 2005. Pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, mae’r awdurdod lleol o dan ddyletswydd statudol i hysbysu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel bod modd sefydlu cyfrif CYP, os nad oes un yn bodoli.

Ar hyn o bryd nid yw Tollau EM yn cyhoeddi faint o gyfrifon CYP sy’n cael eu sefydlu drwy awdurdodau lleol na chan rieni, ond mae’n bwriadu darparu’r wybodaeth yn ddiweddarach eleni. Ni allwn felly gadarnhau faint o blant yng Nghymru nac yn ardal unrhyw awdurdod lleol sydd â chyfrif CYP wedi ei sefydlu iddynt a hwythau’n blant sy’n derbyn gofal.

Yr ydym yn amcangyfrif, pan agorir y cynllun grant CYP ar 1 Medi 2006, y bydd rhyw 650 o blant yn gymwys ar unwaith ac y bydd tua 200 yn rhagor o blant yn dod yn gymwys bob blwyddyn o dan y meini prawf arfaethedig a nodwyd yn y llythyr ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Chwefror.

Hyd yma nid oes unrhyw arian ychwanegol wedi cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol i'w had-dalu am gyfraniadau a wnânt i gyfrifon CYP y plant y maent yn gofalu amdanynt. Y bwriad yw dechrau'r cynllun o fis Medi eleni ac ad-dalu hyd at £50 i'r awdurdodau lleol am gyfraniadau a wnânt i gyfrifon CYP pob plentyn cymwys. Mae manylion y cynllun grant arfaethedig wedi'u nodi yn y llythyr ymgynghori sydd ar gael ar y wefan uchod.

Yn ystod y ddadl ar CYP fis Medi diwethaf, addewais y byddwn yn rhoi adroddiad i Aelodau'r Cynulliad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r trefniadau manwl i weithredu'r cynllun yn 2006. Bwriadaf wneud hynny erbyn yr haf.

**Lisa Francis:** Pa ganran o boblogaeth oed gweithio Cymru a gyflogir gan y GIG? (WAQ46193)

**Brian Gibbons:** Gan ddefnyddio gwybodaeth yn *Public Sector Trends 2005*, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fis Tachwedd y llynedd, yr oedd 99,400 o bobl yn cael eu cyflogi gan y GIG yng Nghymru yn 2004, a oedd i gyfrif am oddeutu 7.5 y cant o'r holl bobl a oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 2004.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gyllid a ddyrannwyd i'r Agenda ar gyfer Newid, fesul pob Ymddiriedolaeth GIG unigol a chan gynnwys Canolfan Gwasanaethau Busnes y GIG? (WAQ46196)

**Brian Gibbons:** Mae'r symiau a dalwyd i ymddiriedolaethau GIG a Chanolfan Gwasanaethau Busnes y GIG yn 2005-6 mewn perthynas â'r 'Agenda ar gyfer Newid' fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Bro Morgannwg | £3,906,000 |
| Caerdydd a'r Fro | £7,479,000 |
| Caerfyrddin | £1,953,000 |
| Ceredigion | £700,000 |
| Conwy a Sir Ddinbych | £3,194,000 |
| Gwent | £6,887,000 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | £2,964,000 |
| Gogledd Morgannwg | £1,837,000 |
| Gogledd Orllewin Cymru | £3,032,000 |
| Sir Benfro a Derwen | £1,979,000 |
| Pontypridd a Rhondda | £2,489,000 |
| Powys | £1,390,000 |
| Abertawe | £4,440,000 |
| Felindre | £1,110,000 |
| Ambiwlans | £12,516,000 |
| Contractau gyda Darparwyr yn Lloegr | £1,895,000 |
| BILlau a Chanolfannau Gwasanaeth | £320,000 |

**Jenny Randerson:** A roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r contract ar gyfer astudiaeth ac adroddiad am ofal cartref am ddim allan ar dendr ac, os felly, sawl tendr a dderbyniwyd? (WAQ46197)

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion y cyfarwyddiadau a'r cylch gwaith a roddwyd i'r Athro Bell pan gafodd ei gomisiynu i ddarparu adroddiad am ofal cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ46207)

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion llawn cost adroddiad Bell am ofal cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ46208)

**Jenny Randerson:** Ar ba ddyddiad y penodwyd yr Athro Bell i gynhyrchu adroddiad am ofal cartref am ddim. (WAQ46209)

**Brian Gibbons:** Dechreuodd y contract gyda Phrifysgol Stirling ar 23 Mai 2005. Fe'i dyfarnwyd ar ôl proses wyro un tendr yn unol â chanllawiau caffael a pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd contract i'r brifysgol i ddarparu amcangyfrif annibynnol o'r gost o weithredu'r ymrwymiad i ddarparu gofal cartref am ddim i bobl anabl yng Nghymru. Bydd angen imi ystyried y cais i gyhoeddi manylion y tendr a manyleb y contract yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Byddaf yn gwneud hynny a bydd ymateb ar wahân yn cael ei anfon atoch.

**Jenny Randerson:** Beth yw'r ffigurau cyllido arfaethedig ar gyfer yr Agenda ar gyfer Newid yn y GIG yng Nghymru tan 2015? (WAQ46204)

**Brian Gibbons:** Mae £56.839 miliwn wedi cael ei gynnwys yn nyraniadau iechyd 2006-7 y byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru. Mae'r cyllid ar lefelau prisiau 2005-06, ac mae wedi cael ei gynnwys o fewn y dyraniadau dewisol. Mae'n rhan felly o linell-sylfaen-a-gyllidir y GIG sy'n denu cynnydd craidd yn flynyddol, ac mae wedi cael cynnydd o 4.5 y cant ar gyfer 2006-07. Bydd y cyllid ar gyfer y blynyddoedd o 2007-08 ymlaen yn dibynnu ar y cynnydd craidd a ddarperir yn y blynyddoedd hynny.

**Jenny Randerson:** Beth yw'r gyfradd cyfateb a chymhathu dan yr Agenda ar gyfer Newid wedi ei dadansoddi fesul pob Ymddiriedolaeth GIG unigol? (WAQ46205)

**Brian Gibbons:** Dangosir y data am y cyfraddau cyfateb a chymhathu yn y tablau sydd ynghlwm:

**Cymru—Data Cyfateb Swyddi:**

| **Digwyddiadau Cyfateb—Wedi'u Cwblhau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | # | Safle | % | Safle |
| Bro Morgannwg | 1,267 | 8 | 79% | 14 |
| BILlau ac eithrio Powys (Canolfan Gwasanaethau Busnes | 607 | 13 | 75% | 15 |
| Caerdydd a'r Fro | 3288 | 2 | 100% | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 726 | 11 | 80% | 13 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 579 | 15 | 100% | 1 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 2,212 | 3 | 87% | 11 |
| Gofal Iechyd Gwent | 3,389 | 1 | 91% | 8 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 2,010 | 4 | 93% | 7 |
| Gogledd Morgannwg | 919 | 10 | 100% | 1 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 1,246 | 9 | 90% | 9 |
| Sir Benfro a Derwen | 1,331 | 6 | 99% | 5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pontypridd a Rhondda | 685 | 12 | 83% | 12 |
| BILl Powys | 587 | 14 | 73% | 16 |
| Abertawe | 1,437 | 5 | 90% | 10 |
| Felindre | 1,297 | 7 | 99% | 4 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 153 | 16 | 96% | 6 |
| Cymru gyfan | 21,733 | | 92% | |

*O'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig. O'r system gwerthuso swyddi drwy gymorth cyfrifiadur a'r adroddiad cryno am drafodion.

**Cymru—Data Cymhathu:**

| **Gweithwyr a Gymhathwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | # | Safle | % | Safle |
| Bro Morgannwg | 1,879 | 6 | 24.9% | 9 |
| BILlau ac eithrio Powys (Canolfan Gwasanaethau Busnes | 63 | 15 | 6.0% | 15 |
| Caerdydd a'r Fro | 2,838 | 3 | 24.1% | 11 |
| Sir Gaerfyrddin | 956 | 11 | 24.6% | 10 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 1,248 | 9 | 88.9% | 1 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 786 | 12 | 15.9% | 12 |
| Gofal Iechyd Gwent | 5,958 | 1 | 49.6% | 4 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 389 | 13 | 8.8% | 14 |
| Gogledd Morgannwg | 2,197 | 5 | 74.5% | 2 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 3,294 | 2 | 65.9% | 3 |
| Sir Benfro a Derwen | 1,573 | 7 | 48.5% | 5 |
| Pontypridd a Rhondda | 1,476 | 8 | 36.8% | 7 |
| BILl Powys | 1,047 | 10 | 43.6% | 6 |
| Abertawe | 2,700 | 4 | 34.2% | 8 |
| Felindre | 362 | 14 | 13.9% | 13 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 0 | 16 | 0.0% | 16 |
| Cymru gyfan | 26,766 | | 34.5% | |

*Fel y nodwyd ar yr adroddiad cryno am drafodion, o'i gymharu â chyfrif pennau.

**Peter Black:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau nifer y llawdriniaethau GIG sy'n cael eu canslo? (WAQ46213)

**Brian Gibbons:** Mae'r system gyfredol i gasglu gwybodaeth am lawdriniaethau sy'n cael eu canslo wedi bod yn rhedeg er 2002, ac mae'n deillio o'r angen i gasglu gwybodaeth fanylach am y rhesymau dros ganslo. Mae'r system yn casglu llawdriniaethau sy'n cael eu canslo am bob rheswm—y rhai sy'n cael eu canslo am resymau cleifion, sy'n gallu bod yn gyfrifol am hyd at 50 y cant o'r cyfanswm, a'r rhai sy'n cael eu canslo gan yr ysbyty am resymau clinigol neu anghlinigol.

Mae rhaglen arweiniad i ymarfer da yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn rhaglen ddwy flynedd a fu'n rhedeg er mis Ebrill 2004. Mae'n cynnig arweiniad i ymddiriedolaethau ar reoli eu rhestrau aros yn effeithiol a datblygu eu systemau bwcio i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn trefn gronolegol o fewn blaenoriaeth glinigol. Mae hyn yn helpu i leihau'r nifer o lawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar draws Cymru.

O ganlyniad i'r rhaglen trin-yn-eu-tro hon, mae'r ymddiriedolaethau wedi mabwysiadu'r pecyn cymorth blaenoriaethu'n glinigol a thrin, sy'n golygu rheoli rhestrau aros yn well, dilysu, defnyddio bwcio cronolegol a chadw at y polisi o ran rhestrau aros yng nghyswllt cleifion nad ydynt yn cadw eu hapwyntiad neu na allant wneud hynny.

Mae'r ymddiriedolaethau hefyd yn gwneud defnydd ehangach o asesiadau cyn llawdriniaeth, sy'n sicrhau bod cleifion yn ffit i gael llawdriniaeth a bod yr holl drefniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer y llawdriniaeth ei hun ac unrhyw ôl-ofal, ac mae hynny'n lleihau'r risg o orfod canslo.

Mae bwcio sy'n canolbwyntio ar y claf, sydd hefyd yn rhan o'r rhaglen arweiniad i ymarfer da, yn cael ei fabwysiadu gan bob ymddiriedolaeth yng Nghymru. Mae'n rhoi mwy o sicrwydd i'r claf, sy'n golygu bod llai o gleifion yn peidio â chadw'u hapwyntiad.

Drwy fabwysiadu arferion da o ran rheoli rhestrau aros, defnyddio rhag-asesiadau a rhoi mwy o lais i gleifion wrth drefnu dyddiadau eu llawdriniaeth, mae nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo wedi gostwng ar draws Cymru. Cafodd y gwaith hwn ei hybu ymhellach yn sgil cyhoeddi argraffiad newydd o'r arweiniad i ymarfer da ym mis Medi 2005, a gymeradwywyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2005) 090.

Fel rhan o fframwaith gwasanaeth a chyllid 2006-07, un o'r targedau moderneiddio ac effeithlonrwydd yw bod gofyn i bob ymddiriedolaeth GIG leihau'r nifer o lawdriniaethau sy'n cael eu canslo un ai ar ddiwrnod y driniaeth neu'r diwrnod cyn y driniaeth fel canran o'r holl lawdriniaethau a restrir. Bydd yr uned gyflenwi a chymorth yn helpu cyrff sy'n cael anhawster i gyrraedd y targed.

Mae symudiad hefyd tuag at fabwysiadu mwy o gapasiti dewisol sy'n cael ei warchod a chynnydd yn y cyfraddau achosion dydd yng Nghymru. Mae'r naill duedd a'r llall yn debygol o arwain at ostyngiad yn y nifer o lawdriniaethau sy'n cael eu canslo. Ymysg yr enghreifftiau mae'r uned orthopedig yn Ysbyty Llandochau, yr uned triniaethau dydd a diagnosteg yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a'r datblygiad orthopedig yn Ysbyty Gwynllyw yng Ngwent.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y cyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad i AWEMA ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ46181)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'r cyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad i AWEMA er 2000, pan ddaeth yn gwmni cofrestredig, wedi'i nodi isod:

| | |
|---|---|
| 2000-01 | £24,075 |
| 2001-02 | £148,417 |
| 2002-03 | £206,900 |
| 2003-04 | £234,972 |
| 2004-05 | £38,333 |
| 2005-06 | £139,548 |

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gweithgareddau disgwyliedig ar AWEMA, yn gyfnewid am eu cyllid gan y Cynulliad, ac a wnaiff roi manylion y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac AWEMA? (WAQ46212)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid grant tuag at weithgareddau AWEMA sy'n cynnwys y canlynol:

- datblygu canllawiau ymarfer da o ran ymgynghori a chyfathrebu:
- dyfeisio arfau sy'n arwain at gynyddu cyfranogiad cymunedau ethnig lleiafrifol duon amrywiol yng Nghymru mewn bywyd cyhoeddus o bob math:
- datblygu systemau gwybodaeth a chymorth i helpu cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu gwahaniaeth:
- dulliau gwerthuso a mesur: a
- rhoi cyngor ar lunio polisi.

Yn ychwanegol at hyn mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu cyllid ar gyfer prosiect EQUAL AWEMA. Nod y prosiect hwn yn ymladd yn erbyn hiliaeth a senoffobia yng nghymdeithas Cymru, yn arbennig yn y farchnad lafur.